

# Dymchwel a Gwaredu Cyfadeilad Pyllau Trawsfynydd (PCCD)

## Aseiad o'r Effeithiau ar Iechyd

**TRAWS-24-002 Rhifyn 1**

Dyddiad: Ebrill 2024

## Cyflwyniad

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Iechyd wedi cael ei baratoi i gyd-fynd a chefnogi cais cynllunio llawn ar gyfer:

- i dymchwel adeiladau cyfadeilad pyllau Trawsfynydd;
- ii mewnlenni gwagleoedd o dan y ddaear cyfadeilad y pyllau, yn bennaf gyda sgil-gynhyrchion dymchwel sydd wedi'u halogi'n ymbelydrol, a chadw'r mewnlenni'n barhaol (sef gwaredu gwastraff ymbelydrol mewn termau trwyddedu amgylcheddol);
- iii cadw'n barhaol y strwythurau gweddilliol o dan y ddaear sydd wedi'u halogi'n ymbelydrol yng nghyfadeilad y pyllau ac o'i gwmpas (sydd, yn nhermau trwyddedu amgylcheddol, hefyd yn golygu gwaredu gwastraff ymbelydrol);
- iv capio ôl troed hen gyfadeilad y pyllau gyda chap concrit; ac
- v addasiadau i'r draeniau lleol ar y cap concrit ac o'i gwmpas.

Prif ffocws yr asesiad hwn yw deall a mynd i'r afael ag effeithiau a safbwyntiau posibl ynghylch iechyd unigolion a chymunedau o ganlyniad i'r gwaith, yn y tymor byr a'r tymor hwy. Dyma'r gweithgareddau y canolbwyntir arnynt ar gyfer yr amserlenni hyn:

- effeithiau tymor byr o ganlyniad i'r gwaith o gwblhau gweithgareddau galluogi, dymchwel cyfadeilad y pyllau i lefel y slab sylfaen, gan gynnwys mewnlenni ei wagleoedd o dan y ddaear yn rhannol, capio ac addasu draeniad dŵr wyneb.
- Effeithiau tymor hwy'r gwaith ar ôl ei gwblhau, gan gynnwys y posibilrwydd o ryddhau ymbelydredd drwy ddŵr daear.

## Trosolwg o Ddeddfwriaeth

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella bywydau nawr a 100 mlynedd i'r dyfodol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau gyda golwg ar osgoi neu leihau problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae ganddo saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru fwy cyfartal;
- Cymru iachach;
- Cymru o gymunedau cydlynol;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

O dan bob un o'r nodau hyn, ceir nifer o amcanion. Mae tabl sy'n dangos sut mae'r datblygiad arfaethedig yn rhyngweithio â'r nodau hyn ar gael yn Adroddiad Allbwn Gweithdy Rhanddeiliaid Magnox<sup>1</sup>.

<sup>1</sup> Gweithdy Rhanddeiliaid Magnox 4 Hydref 2023 – Adroddiad Allbwn, Cyfeirnod y Ddogfen TRAWS-23-034 Rhifyn 1, Rhagfyr 2023.

Er nad yw'r Ymgeisydd yn cael ei ystyried yn gorff cyhoeddus o dan y Ddeddf hon, mae'n ymwybodol o ddyletswydd a chyfrifoldeb Cynghorau Lleol i ystyried ffactorau'r ddeddfwriaeth hon fel rhan o'u penderfyniadau sy'n ymwneud â'r cais cynllunio. Gofynnodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ei ymateb i adroddiad Cwmpasu'r Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol am i Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gael ei gynnal ar gyfer y cynnig hwn i gefnogi'r cais cynllunio.

### **Y Cefndir**

Mae NLS Trawsfynydd yn cael ei weithredu gan Nuclear Restoration Services Limited ar ran yr Awdurdod Datgomiynu Niwclear (NDA), i gyflawni'r broses datgomiynu ac adfer. Roedd Nuclear Restoration Services (NRS) Limited, hyd at 2 Ebrill 2024, yn cael ei alw'n Magnox Limited pan newidiodd y cwmni ei enw'n swyddogol, ac o hyn ymlaen yn y ddogfen hon cyfeirir at y cwmni fel 'yr Ymgeisydd'. Mae gwaith datgomiynu a rheoli gwastraff yn digwydd ar y safle ar hyn o bryd. Mae datgomiynu'n golygu symud a rheoli offer, adeiladau a gwastraff oedd yn gysylltiedig â chynhyrchu trydan a gweithrediadau dilynol mewn ffordd systematig.

Mae'r bwriad i ddatgomiynu cyfadeilad y pyllau yn Nhrawsfynydd bellach yn golygu gadael y strwythurau ymbelydrol o dan y ddaear yn eu lle ac ôl-lenwi'r gwagleoedd gyda choncrid addas wedi'i halogi'n ymbelydrol a rwbel brics o ddymchwel y strwythur uwchben y ddaear, cyn capio'r ardal gyda slab concrid er mwyn gallu aildefnyddio'r ardal i gefnogi'r gwaith o ddatgomiynu'r safle ymhellach.

Effeithiau'r gwaith dymchwel ar y cymunedau lleol yn ogystal ag effeithiau tymor hir datgomiynu cyfadeilad y pyllau drwy gadw rhywfaint o wastraff sydd wedi'i halogi ag ymbelydredd ar y safle oedd ffocws yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

### **Trosolwg o'r Asesiad**

Mae NRS yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu'n rheolaidd â'i randdeiliaid a'r cymunedau lleol. Amlinellir y rhain yn y Datganiad o Gyfranogiad Cymunedol sy'n cefnogi'r cais. Yn ogystal â'r diweddariadau rheolaidd a ddarparwyd ar y cais hwn yn y digwyddiadau hyn sydd wedi'u trefnu, gofynnodd Magnox hefyd am farn y cyhoedd ar yr opsiwn hwn ar gyfer datgomiynu'r safle drwy gyfres o ddigwyddiadau galw heibio lleol yn ystod haf 2023 ac ymgysylltu ar-lein cyfochrog.

Mae'r adborth a'r dadansoddiad o fynychwyr o'r digwyddiadau hyn, y rhestrau gwirio<sup>2</sup> a'r methodolegau a nodir yng nghanllaw Uned Cymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU), "Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: Canllaw Ymarferol", a maint ac amserlen y datblygiad arfaethedig wedi cael eu defnyddio fel sail i fethodoleg yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Oherwydd maint y wybodaeth sydd eisoes wedi'i rhannu â'r cymunedau lleol a'r cyfleoedd i randdeiliaid roi sylwadau ar gynlluniau a chynnydd y datblygiad, darpar asesiad cyflym oedd yn fwyaf priodol. Roedd hwn ar ffurf Gweithdy undydd ar Effeithiau ar Iechyd a oedd yn cynnwys pobl o'r tair cymuned fwyaf lleol, sef Trawsfynydd, Gellilydan a Maentwrog. Y nod oedd rhoi cyfle i amrywiaeth o randdeiliaid ddysgu mwy am y cynigion ac adrodd yn ôl ar eu safbwyntiau ac unrhyw bryderon ynghylch yr effaith bosibl ar iechyd a lles yn yr ardal.

### **Gweithdy Rhanddeiliaid HIA**

Cynhaliwyd y gweithdy ym mis Hydref 2023 yn y Gynhadledd a'r Ganolfan Ymwelwyr yn Llyfrgell Genedlaethol Trawsfynydd.

Prif nodau'r sesiwn oedd:

- Bod Magnox yn egluro'r cynigion a'u heffeithiau nawr, ac ar gyfer y dyfodol.

<sup>2</sup> Gan gynnwys y rhestr wirio ar gyfer Grwpiau Agored i Niwed/ Grwpiau Dan Anfantais a'r Rhestr Wirio ar gyfer Penderfynyddion Iechyd a Lles

- Clywed lleisiau rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli Trawsfynydd, Gellilydan a Maentwrog.
- Casglu safbwyntiau i'w cynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.
- Galluogi Magnox i ymateb i unrhyw bryderon.

Daeth deg o bobl i'r gweithdy pum awr, gan gynrychioli wyth mudiad lleol a'r gymuned gyffredinol. Gwahoddwyd un ar ddeg o fudiadau eraill ond nid oeddent yn gallu bod yn bresennol. Y rhai a oedd yn bresennol oedd:

- Parc Cenedlaethol Eryri,
- Saethu Colomennod Clai Trawsfynydd,
- Côr Meibion Prysor,
- Cwmni Coedwigaeth Lleol,
- Seren Ffestiniog,
- Trawsnewid,
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a
- Pysgodfa Prysor a chaffi Lakeside.

Roedd wyth aelod o staff Magnox (a chofnodwyr) hefyd yn bresennol i helpu i gefnogi'r gweithdy.

Cynhaliwyd y gweithdy gan ymgynghorydd allanol sy'n siarad Cymraeg i sicrhau didueddrwydd. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r gweithdy yn Gymraeg gyda chyfieithydd byw ar gyfer y cyfranogwyr Saesneg eu hiaith. Mae rhestr gwahoddedigion i'r gweithdy ar gael yn Adroddiad TRAWS-23-034 ac mae proffil o'r gymuned mewn perthynas â Chymru a'r DU i'w weld yn yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg.

### Strwythur y gweithdy

Roedd y gweithdy wedi'i strwythuro i ddarparu gwybodaeth mewn cymaint o ffurfiau â phosibl drwy gydol y dydd. Roedd y brif ystafell, lle cynhaliwyd y gweithdy, yn cynnwys nifer o faneri dwyieithog yn egluro'r safle a'r cynigion.<sup>3</sup> Darparwyd amser ar ddechrau'r gweithdy a thrwy gydol y digwyddiad i alluogi pobl i ddarllen a dychwelyd at y wybodaeth hon yn ôl yr angen.

Roedd 2 brif sesiwn, un cyn ac un ar ôl cinio. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyniadau i osod y cefndir ac egluro cyd-destun y sesiwn a gwybodaeth dechnegol ac yna sesiynau grŵp i drafod y wybodaeth a'r cynigion yn fanylach. Roedd gweithwyr Magnox yn rhan o'r grwpiau trafod hyn i sicrhau bod yr effeithiau tymor agos a thymor hir yn cael eu trafod ac i ddarparu manylion ychwanegol yn ôl yr angen. Ar ddiwedd pob sesiwn, rhannwyd y prif bwyntiau a godwyd yn ystod y grwpiau trafod gyda gweddill yr ystafell.

Roedd yr egwyl ginio rhwng y 2 brif sesiwn hefyd yn gyfle i bobl drafod eu safbwyntiau gyda'i gilydd yn fanylach a gofyn am wybodaeth ychwanegol gan weithwyr Magnox yn ôl yr angen.

<sup>3</sup> Roedd y baneri a ddefnyddiwyd i gefnogi gweithdy'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yr un fath â'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer y digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod haf 2023. I gael rhagor o fanylion, darllenwch y Datganiad o Gyfranogiad Cymunedol (TRAWS-23-043).

Roedd y sesiwn gyntaf yn canolbwyntio ar roi trosolwg o'r hyn roedd Magnox wedi bod yn ei wneud hyd yma ar y safle, ers dechrau datgomisiynu, cyn mynd i fanylion am y cynlluniau arfaethedig i ddatgomisiynu cyfadeilad y pyllau. Yna, trafododd y grwpiau trafod eu syniadau cychwynol ar y cynllun datgomisiynu.

Roedd yr ail sesiwn yn edrych yn fanylach ar effeithiau tymor hir datgomisiynu cyfadeilad y pyllau drwy gadw gwastraff addas, wedi'i halogi â rhywfaint o ymbelydredd, ar y safle ac effeithiau tymor hir gwaredu strwythurau sydd wedi'u halogi ag ymbelydredd. Y tro hwn roedd y grwpiau trafod yn canolbwyntio ar drafod eu syniadau cychwynol ar effeithiau tymor hir y cynllun arfaethedig.

### **Effeithiau posibl a nodwyd**

Yn ystod pob sesiwn drafod gofynnwyd cwestiynau ynghylch y mesurau rheoli gwaith, y cynigion monitro, y systemau rheoleiddio ac a fyddent yn hoffi cael rhagor o wybodaeth am agwedd benodol ar y cynlluniau arfaethedig.

Mae'r allbynnau a gasglwyd o'r gweithdy wedi cael eu defnyddio i ddatblygu'r rhestr o effeithiau posibl o ganlyniad i'r cynnig a nodwyd, a'r pryderon a fynegwyd, yn unol ag arferion gorau ac fel y trafodwyd yn y gweithdy. Mae'r effaith y gallai'r effeithiau hyn ei chael ar wahanol rannau o'r cymunedau a'r tebygolrwydd posibl a hyd yr effeithiau wedi'u hamlinellu yn y tabl isod.

Mae'r sylwadau o Sesiwn 1 - cynlluniau arfaethedig i ddatgomisiynu cyfadeilad y pyllau, a Sesiwn 2 - effeithiau tymor hir datgomisiynu cyfadeilad y pyllau drwy gadw'r gwastraff ar y safle, wedi'u cynrychioli gyda'i gilydd oherwydd themâu ac effeithiau sy'n gorgyffwrdd. Nodwyd effeithiau cadarnhaol a negyddol yn y gweithdy ac fe'u cynhwysir yn y tabl isod

Cafodd yr amserlenni ar gyfer effeithiau eu rhannu'n rhai tymor byr a thymor hir.

- Mae tymor byr yn cael ei ystyried fel cam gwaith y cynnig, gan gynnwys gwneud cais a chael caniatâd cynllunio, yr holl waith dymchwel a gwaith ar y safle, ac adeiladu'r cap concrit.
- Mae tymor hir yn golygu unrhyw beth ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol.

I fesur y tebygolrwydd y bydd effeithiau'n digwydd, mae tri chategori gwahanol wedi cael eu defnyddio, sef pendant, tebygol a damcaniaethol.

- Pendant yw pan fo'r effaith a nodwyd yn bendant o ddigwydd pe na bai mesurau rheoli yn cael eu rhoi ar waith, neu os cytunwyd eisoes ar benderfyniad ynghylch effaith y tu hwnt i reolaeth y cynnig. Nid yw'n golygu y bydd yr effaith yn digwydd.
- Mae tebygol yn cwmpasu'r sefyllfa lle gallai'r effeithiau a nodwyd ddigwydd gyda neu heb fesurau lliniaru ychwanegol.
- Defnyddir damcaniaethol lle mae'r effeithiau a nodwyd yn destun rheolaeth y tu allan i'r gwaith arfaethedig neu'n rhy bell yn y dyfodol i ragweld gydag unrhyw sicrwydd. Mewn perthynas â'r adroddiad hwn, mae damcaniaethol yn golygu bod effaith yn annhebygol.

Mae mesurau rheoli a mesurau lliniaru ar gyfer yr effeithiau posibl a nodwyd yn y gweithdy hefyd yn cael eu trafod yn y tabl isod.

**Tabl 1 – Crynodeb o weithdy'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gyda rheolaethau a gwelliannau**

Pwnc effaith a godwyd	Crynodeb o'r prif bwyntiau	Natur yr effaith (cadarnhaol / negyddol)	Tebygolrwydd (pendant, tebygol neu ddamcaniaethol)	Tymor (byr / hir)	Dosbarthiad yr effeithiau	Mesurau lliniaru, a gwelliannau a argymhellir
<b>Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd</b>						
Teimlo'n ddiogel	Byddai mesurau diogelwch digonol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer y gwaith.  Yn y gweithdy, cafwyd cwestiynau hefyd am ddiogelwch y cap concrit, mesurau rheoli'r safle (a oedd cynlluniau wrth gefn ar waith i ddiogelu pobl a'r amgylchedd), gwasgariad llwch, a sut byddai amgylchiadau annisgwyl yn cael eu rheoli.	Cadarnhaol	Pendant	Byr a Hir	Mae mesurau diogelwch yn cynnwys diogelwch gweithwyr yn ogystal â diogelwch a gwarchodaeth y cyhoedd a'r amgylchedd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol nid yn unig ar y gweithwyr ar y safle ac ar y cymunedau lleol, ond hefyd ar iechyd Cymru.	Trefniadau rheoli'r cwmni wedi'u sefydlu sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n llywodraethu diogelwch i'r gweithwyr a'r cyhoedd.  Dim argymhellion pellach.
Balchder lleol	Roedd awydd cryf i bobl wybod mwy am y safle. Gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"><li>□ y genhedlaeth iau gan y byddant yn byw gyda chanlyniadau'r cynllun gwaredu hwn</li><li>□ y gymuned gyffredinol gydag erthyglau papur newydd, arddangosfeydd mewn lleoliadau lleol fel caffi glan y llyn/ neuaddau cymunedol</li><li>□ cyfathrebu rheolaidd pan fydd rhagor o gynnydd yn cael ei wneud, neu os oes angen gwneud unrhyw newidiadau.</li><li>□ dylid symleiddio'r cyfathrebu â'r cyhoedd ymhellach er mwyn i'r cyhoedd ddysgu am wastraff niwclear</li><li>□ cyfarwyddiadau ynghylch pwy i'w hysbysu os bydd y gymuned leol yn gweld unrhyw beth anffafriol pan fydd y gwaith yn cael ei wneud.</li></ul>	Cadarnhaol	Tebygol	Byr a Hir	Gweithwyr, eu teuluoedd a phobl yn yr ardal leol.	Dim argymhellion pellach.
Ofn llygredd yn ystod y gwaith dymchwel	Roedd cwestiwn ynghylch lle mae modd dod o hyd i'r wybodaeth fanwl am y cyfrifiadau, y tybiaethau a'r data.  Mae dymchwel cyfadeilad y pyllau a thrwytholch o'r gwaredu yn y fan a'r lle yn achosi llygredd i lyn Trawsfynydd.  Dim mesurau rheoli digonol ar gyfer delio ag amgylchiadau annisgwyl yn ystod y gwaith, er enghraifft pe bai'r rhwystr silt yn methu, a ddylid cael rhwystr silt wrth gefn.	Negyddol	Tebygol	Byr	Aelodau o'r cyhoedd sy'n ymwneud â gweithgareddau hamdden a lleol a thrigolion lleol fel tai fferm lleol a phentref Gellilydan.	Bydd mesurau rheoli ar waith i atal llygredd. Argymell darparu taflenni i breswylwyr lleol sy'n addysgu'r cyhoedd am y rheolaethau sydd ar waith i ddarparu gwarchodaeth.  Mae archwiliadau annibynnol gan reoleiddwyr yn cael eu cynnal nawr, a byddant yn cael eu cynnal yn ystod gwaith dymchwel y pyllau ac ar gyfer gwaredu yn y fan a'r lle.  Gosod arwyddion arddangos cyhoeddus yn lleol gan ddarparu gwybodaeth i aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r ardal leol.
Ofn perygl tymor hir o ganlyniad i waredu	Cafwyd trafodaeth ynghylch cadw cofnodion yn y tymor hir ac a oes digon o gyllideb i gadw'r safle'n ddiogel yn y tymor hir.	Negyddol	Tebygol	Hir	Aelodau o'r cyhoedd sy'n ymwneud â gweithgareddau hamdden a lleol a thrigolion lleol fel tai fferm lleol a phentref Gellilydan.	Dim ond os gellir profi eu bod yn ddiogel y caniateir gwarediadau.  Argymell darparu taflenni i breswylwyr lleol sy'n

	Bydd gan gyrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) yr adnoddau angenrheidiol i fonitro'r gwaredu yn y fan a'r lle yn y dyfodol.					addysgu'r cyhoedd am y rheolaethau sydd ar waith i ddarparu gwarchodaeth.  Gosod arwyddion arddangos cyhoeddus yn lleol gan ddarparu gwybodaeth i aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r ardal lleol.
Natur gymdogol	Ni chodwyd unrhyw bryderon ynghylch y safle fel cymydog da.	Cadarnhaol	Tebygol	Byr a Hir	Manteision i'r trigolion lleol a'r rheini sy'n defnyddio'r tir o amgylch y llyn.	Mae NRS yn gweithredu cynlluniau i gefnogi cymunedau lleol.  Argymhell ymchwilio i weld a oes modd gwneud ymrwymadau contract i ddarparu manteision tymor hir i'r ardal i gydnabod derbyn gwaredu ar y safle, e.e. ymrwymiad parhaus i gynnal y pontydd a'r llwybr o amgylch y llyn.
<b>Amodau byw / amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd</b>						
Sŵn	Ni chodwyd unrhyw bryderon ynghylch sŵn y gwaith arfaethedig.	Negyddol	Pedant	Byr	Aelodau o'r cyhoedd sy'n ymwneud â gweithgareddau hamdden a lleol a thrigolion lleol fel tai fferm lleol a phentref Gellilydan.	Ni fydd y gwaith sy'n creu sŵn yn dechrau cyn 08:00 nac yn parhau ar ôl 18:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, a 13:00 ar ddydd Sadwrn. Ni fydd y lefelau'n uwch na throthwyon Categori A.  Os bydd angen gwaith cyfyngedig yn ystod y nos (megis tywallt concrit ar y cap), gwneir cais ar wahân o dan adran 61 y Ddeddf Rheoli Llygredd. Byddai gweithgareddau yn ystod y nos yn annhebygol o arwain at unrhyw effeithiau sylweddol oherwydd natur y gwaith a wneir.  Mae'r mesurau arfer gorau o ran sŵn a fydd yn cael eu dilyn wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu a Dymchwel (CEMP).
Ansawdd aer a dŵr	Cafwyd trafodaethau ynghylch yr effaith ar lyn Trawsfynydd – pa mor ddiogel fydd pysgota; sut bydd y gwaith yn effeithio ar y lefelau pH.  Ni ellir rhagfynegi gwasgariad llwch o'r peiriannau malu concrit a bydd yn effeithio ar gymunedau lleol a'r amgylchedd  Gall dymchwel cyfadeilad y pyllau a thrwytholch o'r gwaredu yn y fan a'r lle achosi llygredd i lyn Trawsfynydd.	Negyddol	Damcaniaethol	Byr a Hir	Aelodau o'r cyhoedd sy'n ymwneud â gweithgareddau hamdden a lleol a thrigolion lleol fel tai fferm lleol a phentref Gellilydan.	Rhaid i'r gwaith ar safle Trawsfynydd gydymffurfio â'r cyfyngiadau llym a osodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar pH unrhyw dŵr a ollyngir i'r llyn.  Bydd gwasgariad llwch o'r gwaith hwn yn cael effaith fach iawn ar y fioamrywiaeth a'r ardal gyfagos. Bydd amryw o ddulliau'n cael eu mabwysiadu i atal llwch rhag lledaenu, gan gynnwys defnyddio chwistrellau dŵr a chadw'r safle mewn cyflwr da drwy ddefnyddio dulliau glanhau ffyrdd. Mae'r mesurau lliniaru amgylcheddol a fydd yn cael eu dilyn wedi'u hamlinellu yn y CEMP.
Perygl gwaredu gwastraff	Mynegwyd pryderon ynghylch a oes gan gyrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ac ati yr adnoddau angenrheidiol i fonitro gwaith ar y safle yn y dyfodol  Cafwyd cais am ragor o wybodaeth am ymbelydredd yn yr amgylchedd – cyfeiriwyd y rhai a oedd yn bresennol at yr adroddiadau Radioactivity in Food and the Environment (RiFE) blynyddol sydd ar gael ar y rhyngwrdd.	Negyddol	Pedant	Hir	Defnyddwyr tir yn y dyfodol ar ôl ildio'r drwydded.	Mae gofyniad GRR yn darparu terfynau ar gyfer gwaredu sy'n cyfyngu ar y perygl a ganiateir
Peryglon ar y ffyrdd	Os bydd loriau'n cael eu defnyddio fel rhan o'r gwaith dymchwel, gofynnwyd i Magnox sicrhau nad ydynt yn	Negyddol	Pedant	Byr	Defnyddwyr y ffordd ar hyd llwybrau sy'n cysylltu'r safle â chyflenwyr.	Bydd cludo ar y ffyrdd yn cael ei leihau drwy waredu ar y safle ac aildefnyddio gwastraff glân

	effeithio ar y gymuned leol					<p>a adferir yn lle deunydd crai.</p> <p>Ni ddisgwylir i gludiant gweddilliol fod yn sylweddol ac felly nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.</p>
<b>Amodau economaidd sy'n effeithio ar iechyd</b>						
Cyflogaeth leol	Roedd cwestiwn yn ymwneud â nifer y gweithwyr y disgwylir iddynt fod yn rhan o'r gwaith – awgrymwyd 20-25 o gontractwyr. Bydd llawer o'r gwaith yn waith dymchwel confensiynol. Roedd teimlad cryf ymysg y rhai a oedd yn bresennol bod Magnox yn sicrhau bod gweithwyr lleol yn cael eu cyflogi lle bynnag y bo modd i gyflawni'r cam datgomisiynu hwn.	Cadarnhaol	Pedant	Byr	Trigolion lleol di-waith a chontractwyr lleol.	Polisi corfforaethol Magnox yw defnyddio contractwyr lleol os yw'n briodol gwneud hynny. Mae'r mater hwn yn cael ei adlewyrchu ym mhrosesau dewis contractwyr y cwmni. Fodd bynnag, dylid nodi bod dymchwel cyfleusterau ymbelydrol yn weithgaredd arbenigol, ac efallai na fydd yn bosibl defnyddio contractwyr lleol yn unig. Dim argymhellion pellach.
Diweithdra tymor hir	Codwyd cwestiwn ynghylch a fyddai'r cynnig yn arwain at lai o ddiweithdra tymor hir gan y byddai'n golygu gwaredu llai o'r gwastraff ymbelydrol.	Negyddol	Pedant	Hir	Gweithwyr a gyflogir ar y safle. Cenedlaethau'r dyfodol angen gwaith yn y cymunedau lleol.	Nid oes gwahaniaeth mawr o ran hyd cyflogaeth yn sgil gwaredu ar y safle. Gallai'r gwaith arfaethedig alluogi aildefnyddio'r tir ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth eraill, gan leihau'r pryderon ynghylch diweithdra. Dim argymhellion pellach.

**DERBYN DOGFEN Y CONTRACTWR I'R SYSTEM DDOGFENNAU**

<b>Contractwr:</b>	Bethan Williams Price (Ymgynghorydd Rheoli a Chyfathrebu) Aelod o 'The Consultation Institute'
<b>Rhif Dogfen y Contractwr:</b>	Ddim ar gael
<b>Teitl y Ddogfen:</b>	Gweithdy Rhanddeiliaid Magnox, 4 Hydref 2023 Adroddiad Allbwn
<b>Awdur(on):</b>	Bethan Williams Price
<b>Argraffiad:</b>	1
<b>Dyddiad:</b>	11/12/2023

<b>Cyfeirnod wedi'i Ddyrannu gan Magnox Cod:</b>	TRAWS-23-034 – Argraffiad 1
<b>Rhif Ffeil y Dasg:</b>	Ddim ar gael
<b>Allweddeiriau:</b>	Gweithdy Rhanddeiliaid Magnox Cynllunio GRR Ymgynghoriad Cyhoeddus Trawsfynydd Cyfadeilad Pyllau Trawsfynydd

<b>(Person Cyfrifol Magnox)</b>					
<b>Enw</b>	Sion Richards	<b>Llofnod</b>		<b>Dyddiad</b>	11/12/2023

\* Ar gyfer dogfennau y mae angen derbyniad IC awdurdodedig ffurfiol, rhaid cael hyn cyn llenwi'r ffurflen hon.



## Gweithdy Rhanddeiliaid Magnox, 4 Hydref 2023 Adroddiad Allbwn

### TROSOLWGW O'R DIGWYDDIAD

Amcan y gweithdy hwn oedd i Magnox ymgysylltu â'r gymuned yn Nhrawsfynydd, Gellilydan a Maentwrog, gan gasglu eu barn a'u safbwyntiau gonest am y cynlluniau dymchwel a gwaredu arfaethedig ar gyfer cyfadeilad y pyllau ar safle Trawsfynydd.

Mae canllawiau rheoleiddio newydd a ddatblygwyd gan dair asiantaeth amgylcheddol y DU wedi cael eu treialu gan Magnox. Mae'r bwriad i ddatgomisiynu cyfadeilad y pyllau yn Nhrawsfynydd bellach yn golygu gadael y strwythurau ymbelydrol o dan y ddaear yn eu lle ac ôl-lenwi'r gwagle gyda concrid addas, wedi'i halogi'n ymbelydrol a rwbel brics o waith dymchwel y strwythur uwchben y ddaear, cyn gosod cap concrid ar yr ardal er mwyn gallu aildefnyddio'r ardal i gefnogi'r gwaith o ddatgomisiynu'r safle ymhellach.

Yn ystod haf 2023 gofynnodd Magnox am farn y cyhoedd ar yr opsiwn hwn ar gyfer datgomisiynu'r cyfadeilad drwy gyfres o ddigwyddiadau galw heibio lleol. Fodd bynnag, pwrpas y gweithdy hwn ym mis Hydref oedd gwahodd amrywiaeth o randdeiliaid er mwyn iddynt allu dysgu'n fanylach am y cynlluniau a mynegi eu safbwyntiau ac unrhyw bryderon ynghylch yr effaith bosibl ar iechyd a lles yn yr ardal.

Bydd y safbwyntiau a fynegir ar y diwrnod yn cael eu cynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a fydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r cydsyniadau angenrheidiol ar gyfer dymchwel a gwaredu cyfadeilad y pyllau yn Nhrawsfynydd.

### NOD Y DIGWYDDIAD

- Bod Magnox yn egluro'r cynlluniau a'u heffeithiau nawr, ac ar gyfer y dyfodol.
- Clywed lleisiau rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli Trawsfynydd, Gellilydan a Maentwrog.
- Casglu safbwyntiau i'w cynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.
- Galluogi Magnox i ymateb i unrhyw bryderon.

### Y CYFRANOGWYR

Cafodd y cyfranogwyr eu gwahodd i'r digwyddiad gan Magnox (**Atodiad 1 - rhestr gwahoddedigion a'r llythyr a anfonwyd**). Hwyluswyd y digwyddiad gan Bethan Williams Price. Roedd wyth aelod o staff Magnox (a chofnodwyr) hefyd yn bresennol i helpu i gefnogi'r gweithdy (**Atodiad 2 - rhestr o staff Magnox a theitlau swyddi**). Roedd yn ddigwyddiad dwyieithog gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

Daeth deg o bobl i'r gweithdy pum awr, yn cynrychioli wyth sefydliad lleol a'r gymuned yn gyffredinol (Parc Cenedlaethol Eryri, saethu Colomennod Clai Trawsfynydd, Côr Meibion Prysor, Cwmni Coedwigaeth Lleol, Seren Ffestiniog, Trawsnewid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Pysgodfa Prysor o Chaffi Glan Llyn). Gwahoddwyd un ar ddeg o fudiadau eraill ond nid oeddent yn gallu bod yn bresennol.

Ar gyfer y sesiynau grŵp, trafododd un grŵp y materion yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg.

## STRWYTHUR Y GWEITHDY

1. Cyfle i ddarllen y baneri gwybodaeth yn yr ystafell (**Atodiad 3 – pdf dwyieithog o'r baneri**)
2. Cyflwyniadau ar gyd-destun y cynigion, cynlluniau ac effeithiau tymor agos, ac effeithiau tymor hir (**Atodiad 4 – cyflwyniadau**)
3. Dwy sesiwn grŵp i drafod effeithiau tymor agos a thymor hir gyda'r prif bwyntiau o bob bwrdd yn cael eu hadrodd yn ôl i'r grŵp cyfan.

## Y GWEITHDY A'R WYBODAETH A GASGLWYD

### Sesiwn y bore

Yn ystod sesiwn y bore, rhoddwyd dau gyflwyniad i'r rhai a oedd yn bresennol. Rhoddodd Ian Warner, Rheolwr Cyflwr Terfynol Magnox, drosolwg o'r hyn roedd Magnox wedi bod yn ei wneud hyd yma ar y safle ers dechrau datgomisiynu, a manylodd Sion Richards, Prif Ymgynghorydd Gwastraff Magnox, am y cynlluniau arfaethedig i ddatgomisiynu cyfadeilad y pyllau.

Yna, rhannodd y mynychwyr yn ddau grŵp – un Cymraeg ac un Saesneg – i drafod eu syniadau cychwynol ar y cynllun datgomisiynu.

### Adborth

Ar bob bwrdd, cafodd trafodaethau eu hwyluso gan aelod o staff Magnox (Sion Richards ar y bwrdd Cymraeg, a Nigel Wright ar y bwrdd Saesneg). Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y mesurau rheoli gwaith, y cynigion monitro, y systemau rheoleiddio ac a fyddent yn hoffi cael rhagor o wybodaeth am agwedd benodol ar y cynlluniau arfaethedig.

### *Rheolaethau a monitro*

- Roedd teimlad cyffredinol yn yr ystafell y byddai mesurau diogelwch digonol yn cael eu rhoi ar waith. Cafodd rhanddeiliaid eu sicrhau nad yw Magnox yn sefydliad sy'n gwneud elw ac nad yw'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn seiliedig ar amcanion masnachol.
- Gofynnwyd a oes unrhyw archwiliadau annibynnol yn cael eu cynnal neu a fyddai'n cael eu cynnal. Pa mor hyderus yw Magnox o ran ei ddealltwriaeth o'r rhagdybiaethau a'r posibiladau o ran peryglon. A ydynt yn cael eu hasesu'n annibynnol?
- Roedd cais am gyfarwyddiadau clir ynghylch pwy i'w hysbysu os bydd y gymuned leol yn gweld unrhyw beth anffafriol pan fydd y gwaith yn cael ei wneud a phwy arall, ar wahân i'r safle, y gellid cysylltu â nhw pe bai pryderon ynghylch y ffordd roedd Magnox yn gweithredu.
- Cafwyd trafodaethau ynghylch yr effaith ar lyn Trawsfynydd – pa mor ddiogel fydd pysgota; sut bydd y gwaith yn effeithio ar y lefelau pH.
- Roedd cwestiynau hefyd am ddiogelwch y cap concrit (er bod hwn yn bwnc i'w drafod yn sesiwn y prynhawn).
- Cafwyd cais am sicrwydd ynghylch y mesurau rheoli os bydd unrhyw broblemau'n codi – e.e. os bydd y rhwystr silt yn methu, a ddylid cael rhwystr silt wrth gefn?
- Gwnaed pwyntiau am natur anrhagweladwy gwasgaru llwch.
- Gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynghylch pryd y bydd y drwydded a'r penderfyniadau cynllunio'n cael eu gwneud a sut y rhoddir gwybod i'r cyhoedd.
- Roedd teimlad cryf ymysg y rhai a oedd yn bresennol bod Magnox yn sicrhau bod gweithwyr lleol yn cael eu cyflogi lle bynnag y bo modd i gyflawni'r cam datgomisiynu hwn.
- Codwyd cwestiwn ynghylch delio ag amgylchiadau annisgwyl yn ystod y gwaith. Eglurwyd y

gwaith nodweddu helaeth a oedd wedi'i gynllunio fel bod lefel dda o ddata'n cael ei sefydlu wrth gynllunio'r gwaith a byddai mesurau ar waith i reoli sefyllfaoedd annisgwyl.

- Roedd cwestiwn yn ymwneud â nifer y gweithwyr y disgwylir iddynt fod yn rhan o'r gwaith – awgrymwyd 20-25 o gontractwyr. Bydd llawer o'r gwaith yn waith dymchwel confensiynol.

#### *Rheoleiddio*

- Mynegwyd pryderon ynghylch a oes gan gyrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ac ati yr adnoddau angenrheidiol i fonitro gwaith ar y safle yn y dyfodol.

#### *Themâu a sylwadau mwy cyffredinol*

- Holwyd petai concriid yn cael ei dynnu oddi ar y safle, a allai hyn arwain at ailagor y rheilffordd. [Nid oedd hwn yn “bwnc trafod”, ond fe'i nodwyd].
- Os bydd lorïau'n cael eu defnyddio fel rhan o'r gwaith dymchwel, gofynnwyd i Magnox sicrhau nad ydynt yn effeithio ar y gymuned leol – symudiadau gwasgaredig yn hytrach na defnyddio confoi. Cyfeiriwyd at y ffordd y cafodd gwaith ei wneud yn Llyn Tegid gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

#### **Sesiwn y prynhawn**

Yn ystod sesiwn y prynhawn, cafodd y rhai a oedd yn bresennol gyflwyniad pellach gan Sion Richards, Prif Ymgynghorydd Gwastraff Magnox, ar effeithiau tymor hir datgomisiynu cyfadeilad y pyllau drwy gadw'r gwastraff ar y safle (h.y. effeithiau tymor hir gwaredu strwythurau ymbelydrol).

Unwaith eto, rhannodd y mynychwyr yn ddau grŵp – un Cymraeg ac un Saesneg – i drafod eu syniadau cychwynnol ar effeithiau tymor hir y cynllun arfaethedig.

#### Adborth

Ar bob bwrdd, cafodd trafodaethau eu hwyluso gan aelod o staff Magnox (Sion Richards ar y bwrdd Cymraeg, a Nigel Wright ar y bwrdd Saesneg). Gofynnwyd cwestiynau ynghylch yr asesiadau amgylcheddol a diogelwch, hyder yn y systemau rheoleiddio i sicrhau diogelwch pobl leol a'r amgylchedd, unrhyw feysydd sy'n peri pryder ynghylch y cynlluniau gwaredu ar y safle ac a oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt.

#### *Asesiadau amgylcheddol a diogelwch*

- Roedd sicrwydd ynghylch trylwyredd cwmpas yr asesiadau fel yr eglurwyd fel rhan o'r cyflwyniad, cyn belled bod yr holl gyfrifiadau'n gywir.
- Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod Magnox yn bod yn dryloyw drwy rannu'r wybodaeth hon.
- Cafwyd cais am ragor o wybodaeth am ymbelydredd yn yr amgylchedd – cyfeiriwyd y rhai a oedd yn bresennol at yr adroddiadau Radioactivity in Food and the Environment (RiFE) blynyddol sydd ar gael ar y rhyngwyrdd.
- Gofynnwyd cwestiwn ynghylch a oes unrhyw gyfraddau uwch o ganser yn yr ardal – dywedodd y cynrychiolwyr iechyd cyhoeddus ar y bwrdd nad oedd tystiolaeth o hyn.
- Cafwyd trafodaeth ynghylch ymyrraeth faleisus – beth fyddai'n digwydd pe bai rhywun yn dymuno difrodi'r ardal mewn blynyddoedd i ddod?
- Hefyd, roedd teimlad bod llawer o dybiaethau wedi cael eu gwneud – pa mor sicr yw Magnox bod y rhain yn gywir?
- Roedd cwestiwn ynghylch lle mae modd dod o hyd i'r wybodaeth fanwl am y cyfrifiadau, y tybiaethau a'r data.

#### *Rheoleiddio*

- ☐ Cafwyd trafodaeth ynghylch cadw cofnodion yn y tymor hir.
- ☐ Cafwyd trafodaeth ynghylch a oes digon o gyllideb i gadw'r safle'n ddiogel yn y tymor hir.



*Meysydd sy'n peri pryder/angen rhagor o wybodaeth*

- Roedd awydd cryf i addysgu'r gymuned ac yn enwedig y genhedlaeth iau gan y byddant yn byw gyda chanlyniadau'r cynllun gwaredu hwn. Awgrymwyd trefnu ymweliadau ysgol i addysgu pobl ifanc. Ond hefyd, nodwyd yr angen i addysgu'r gymuned yn gyffredinol drwy ddefnyddio erthyglau papur newydd, arddangosiadau mewn lleoliadau lleol megis y caffi glan llyn/neuaddau cymunedol.
- Roedd rhanddeiliaid eisiau annog cyfathrebu rheolaidd pan fydd rhagor o gynnydd yn cael ei wneud, neu os oes angen gwneud unrhyw newidiadau.
- Roedd cais am i unrhyw gyflwyniad yn y dyfodol gymharu'r dosau ymbelydrol presennol yn yr ardal â'r hyn a ragwelir ar ôl cwblhau'r gwaith - roedd awydd am ddiweddariadau cymunedol rheolaidd wrth i'r prosiect fynd rhagddo.
- Roedd teimlad y dylai unrhyw gyflwyniad i'r cyhoedd yn y dyfodol gael ei symleiddio ymhellach - awgrymwyd arddangosfa hawdd ei darllen i'r cyhoedd allu dysgu am wastraff niwclear ac ati

### **Beth nesaf**

Bydd ymatebion ffurfiol gan Magnox i faterion a godwyd yn ystod y gweithdy yn cael eu darparu fel rhan o'r broses ceisiadau cynllunio ac yn nogfennau'r cais am drwydded.

Bethan Williams Price

23/10/23

# Atodiadau

## Atodiad 1 (rhestr gwahoddedigion a'r llythyr a anfonwyd)

<b>People that confirmed in an email that that they were attending and were present.</b>	<b>People that confirmed in an email that that they were attending and were not present.</b>	<b>List of additional people who received the email invite who either did not respond or sent their apologies.</b>
David Jones - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ( <b>only morning session</b> ) John Richards - Trawsfynydd Clay Pigeon Shooting Adrian Roberts - Cor Meibion Prysor and Local Forestry Company Sioned Lewis - Seren Ffestiniog Rhian Jones – Trawsnewid Gwyn Williams – Aelod o'r cymuned Sarah Andrews – BCUHB Dr Dawn Poh - BCUHB Malcolm Atherton -Prysor Fishery and Lakeside Café Eifion Lewis - Seren Ffestiniog	Keith O'Brien - SSG Chair ( <b>verbal tentative</b> ) Elfed Roberts - SSG Vice Chair ( <b>verbal tentative</b> ) Joanne Farrington - Seren Ffestiniog Iwan Jones - Cyngor Gwynedd ( <b>sent last minute apologies</b> ) Nia Bowden - Cyngor Gwynedd ( <b>sent last minute apologies</b> ) Rhys Llywellyn - Prysor Angling Association ( <b>was tentative if able to attend</b> ) Gwenlli Evans - Cwmni Cymunedol Bro Ffestiniog Cyngorydd MW Williams – Cyngor Cymuned Maentwrog Dafydd Jarrett – NFU	Trawsfynydd Community Council – <a href="mailto:cyngor.trawsfynydd@gmail.com">cyngor.trawsfynydd@gmail.com</a> Cyngor Tref Ffestiniog – <a href="mailto:clerc@cynortrefffestiniog.cymru">clerc@cynortrefffestiniog.cymru</a> Gwen Pettifor – Women's Institute Iestyn Pritchard – NFU Hilary/Alan Norton – Meirionydd Ramblers Francesca Williams – Gellilydan Volunteer artists Jonathan Cawley – Parc Cenedlaethol Eryri ( <b>apologies</b> ) Peter Rutherford – Parc Cenedlaethol Eryri



**From:** Elin Parry Jones (Magnox)  
**Sent:** 15 September 2023 13:50  
**To:** Elin Parry Jones (Magnox)  
**Subject:** Gwahoddiad - Gweithdy cymunedol fel rhan o'n Hasesiad Effaith ar Iechyd i ddymchwel a gwaredu'r cyfadeilad pyl

**Categories:** Egress Switch: Please make a selection

Annwyl Cynrychiolydd / Dear Representative,

#### Hoffwn eich gwahodd i:

Gweithdy cymunedol a lluniaeth ysgafn – fel rhan o'n Hasesiad Effaith ar Iechyd i ddymchwel a gwaredu'r cyfadeilad pyllau yn Nhrawsfynydd.

**Pryd:** 10:00 – 15:00 ddydd Mercher, 4 Hydref  
**Ble:** Canolfan Ymwelwyr Magnox, Safle Trawsfynydd, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 4DT

Dyma wahoddiad i ymuno â ni i gymryd rhan mewn gweithdy wedi'i hwyluso yn ogystal â darpariaeth o luniaeth ysgafn

Hoffem drafod a chi y camau nesaf o'r gwaith datgomisiynu rhestredig yn Nhrawsfynydd a clywed eich barn ar sut rydym yn bwriadu ymgymryd â'r gwaith fel rhan o'n taith ddadgomisiynu ac adfer cynlluniedig parhaus.

Rydym yn awyddus i gychwun sgwrs gyda'r gymuned ar camau nesaf y safle a fydd yn cynnwys dymchwel cyfadeiladau y pyllau, ac sut rydym yn bwriadu rheoli'r rwbél a gwastraff gynhyrchir. Bydd y drafodaeth yn llunio rhan allweddol o'n Hasesiad Effaith ar Iechyd yn benodol i'r prosiect yma, a fydd yn galluogi ni i ddeall y pryderon ynghylch unrhyw effeithiau iechyd canfyddedig o'r cam nesaf o'r gwaith.

Rydym yn awyddus i glwyed gan ystod eang o bobl yn y gymuned leol yn ogystal a rhoi cyfle i chi ofyn cwestiynau, ac felly byddwn ddiolchgar pe bo chi neu aelod o'ch grŵp/busnes yn mynychu'r digwyddiad hwn.

A fydddech chi cystal ag anfon eich ateb i [elin.parryjones@magnoxsites.com](mailto:elin.parryjones@magnoxsites.com) er mwyn sicrhau eich lle.

#### Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn yn ysgrifennu ac yn rhannu adroddiad gyda mynychwyr ar ôl y gweithdy, gyda rhanddeiliaid ehangach ac yng nghyfarfodydd Cynghorau Cymuned y pentrefi. Bydd yr adroddiad yn cyfrannu at ein Hasesiad Effaith ar Iechyd a fydd yn cael ei gynnwys mewn ceisiadau yn y dyfodol gyda chyrrff llywodraethu perthnasol.

#### You are invited to:

Community workshop and refreshments – as part of our Health Impact Assessment of the demolition and disposal of the ponds complex at Trawsfynydd

**When:** Wednesday 4 October, 10:00 – 15:00  
**Where:** Magnox Visitor Centre, Trawsfynydd Site, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 4DT

You are invited to join us and take part in a facilitated workshop with the provision of some light refreshments.

We would like to discuss with you the next phase of the scheduled decommissioning works at Trawsfynydd and hear your views on how we plan to undertake the work, as part of our journey of continuous planned decommissioning and restoration.

We want to start a conversation with the community on our next phase at the site which will include the demolition of the ponds complex and how we aim to manage the debris and waste generated. This discussion will form a key part of our Health Impact Assessment, specifically for this project and will enable us to understand the concerns regarding any perceived health effects of this next phase of works.

We would like to hear from a broad range of people in the local community and give you the opportunity to ask questions, and so would love for you or a member of your group/business to attend this event.

Please RSVP to [elin.parryjones@magnoxsites.com](mailto:elin.parryjones@magnoxsites.com) to confirm your place.

#### What happens next?

We will write and share a report with attendees after the workshop, including at village Community Council meetings and with wider stakeholders. The report will form inputs to our Health Impact Assessment which will be included in future applications with relevant governing bodies.

Elin Parry Jones

Uwch Swyddog Cyfathrebu – Safleoedd Cymru / Senior Communications Officer – Welsh Sites

Patrwn Gweithio – Dydd Llun (8am-4.30pm) i Gwener (8am-1.30pm) / Working pattern - Mon (8am-4.30pm) to Friday (8am-1.30pm)

Rhif ffon / Mobile: 07745667176

Ebost / Email: [elin.parryjones@magnoxsites.com](mailto:elin.parryjones@magnoxsites.com)



# Atodiad 2 – rhestr o staff Magnox a theitlau swyddi

Angharad Rayner - Cyfarwyddwr Safle Trawsfynydd

Sion Richards – Prif Ymgynghorydd Gwastraff (cyflwynydd a hwylusydd grwpiau)

Ian Warner – Rheolwr Cyflwr Terfynol (cyflwynydd)

Stephen Wilmott – Prif Ymgynghorydd Gwastraff (hwylusydd

grwpiau) Nigel Wright – Uwch Reolwr Prosiect (hwylusydd grwpiau)

## Cofnodwyr

Kate McAfee – Peiriannydd Cynorthwyol

Tegwen Jones – Rheolwr Dogfennau, Safle Trawsfynydd

Alwena Roberts – Cynorthwydd Sicrhau Ansawdd, Safle

Trawsfynydd Carys Jones – Gweinyddiaeth, Safle Trawsfynydd

## Sylwedyddion

Elin Parry Jones – Uwch Swyddog Cyfathrebu

Jo Hodgson – Arweinydd yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol,

Benjamin Bridgewater – Uwch Ymgynghorydd Gwastraff



Atodiad 3 – pdf dwyieithog o'r baneri

# Fersiwn Cymraeg

# Hanes

Mae Safle Trawsfynydd wedi ei leoli ar ymyl Llyn Trawsfynydd ac mewn lleoliad unigryw ym Mharc Cenedlaethol Eryri, Gogledd Cymru. Crëwyd y llyn yn wreiddiol yn y 1920au i gyflenwi dŵr i orsaf bŵer trydan dŵr Maentwrog, sy'n dal i gael ei gweithredu gan Magnox heddiw.

Dechreuwyd adeiladu'r safle 15.4 hectar ym mis Gorffennaf 1959. Trawsfynydd oedd yr unig orsaf ynni niwclear fewndirol yn y DU, a defnyddiwyd y llyn i gyflenwi dŵr oeri i'r adweithyddion Magnox gefeilliol 500 megawat pan ddechreuon nhw weithredu ym mis Mawrth 1965. Ar y pryd roedd y safle yn gallu cyflenwi holl anghenion trydan Gogledd Cymru.

Yn ogystal â'r adweithyddion, roedd y safle'n cynnwys adeilad pwll oeri, neuadd dyrbinau, a lluo o adeiladau atodol. Fodd bynnag, yn dilyn 26 mlynedd o gynhyrchu llwyddiannus a diogel, daeth gwasanaeth Trawsfynydd i ben ym 1991. Yn ystod ei oes weithredol roedd y safle wedi cynhyrchu cyfanswm o 69 awr terawat o drydan. Dechreuwyd ar y gwaith o dynnu tanwydd o'r adweithyddion ym 1993 ac fe'i cwblhawyd 21 mis yn ddiweddarach yn ystod 1995. Gwelodd y gwaith hwn 99% o gyfanswm y deunydd ymbelydrol yn cael ei symud o'r safle.

Ers 1995 mae Trawsfynydd wedi bod yn mynd trwy broses barhaus o ddatgomiynu diogel, gan ganolbwyntio ar leihau peryglon a chlirio gwastraff.

# Datgomisiynu yn Safle Trawsfynydd

Ers 1995 mae'r holl danwydd wedi'i symud o'r safle, ac rydym wedi bod yn gweithio i waredu peiriannau, datgomisiynu a dymchwel adeiladau yn ogystal ag adennill a phrosesu gwastraff. Ein prif nod yw gwarchod pobl a'r amgylchedd, ac rydym yn gweithio'n galed i leihau effaith ein gweithrediadau ar yr amgylchedd. Rydym hefyd yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid i gael cymeradwyaeth mor eang â phosibl o ran sut yr ydym yn rheoli ein cyfrifoldebau amgylcheddol.

Trawsfynydd oedd y safle Magnox cyntaf i adennill gwastraff ymbelydrol o bob ffrwd gwastraff. Cwblhawyd adenillion gwastraff gwlyb yn 2018, a dilynwyd hynny drwy adennill gweddillion elfennau tanwydd swmpus yn 2021. Rydym yn disgwyl gorffen adennill yr holl wastraff ymbelydrol gweithredol o gyfaddiladau'r pyllau erbyn 2024.

## Newydd am hen

Yn ystod y broses ddatgomisiynu bydd angen inni weithiau adeiladu cyfleusterau newydd i'n galluogi i reoli ein cyfleusterau hanesyddol yn ddiogel, er enghraifft, rydym wedi adeiladu cyfleusterau rheoli gwastraff i'n helpu i brosesu gwastraff a gynhyrchwyd wrth gynhyrchu trydan. Rydym hefyd yn addasu neu'n gwella'r cyfleusterau presennol i sicrhau eu bod yn parhau mewn cyflwr diogel cyn eu bod yn cael eu datgomisiynu. Er enghraifft, rydym yn paratoi adeiladau'r adweithydd i leihau eu uchder.

Mae cyfleusterau ac adeiladau'n cael eu gweithredu i leihau peryglon ar y safle ac i alluogi'r gwaith datgomisiynu i fynd yn ei flaen. Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu cyfleusterau rheoli elifion a storfa gwastraff ymbelydrol, er enghraifft.

## Symud gwastraff

Mae dau brif fath o wastraff yn cael eu cynhyrchu yn ystod cylch bywyd gorsaf bŵer niwclear, a'r rhain yw:

- Gwastraff gweithredol a gynhyrchir tra bydd yr orsaf bŵer yn weithredol. Rydym bron â chwblhau'r gwaith o adennill a phrosesu'r holl wastraff gweithredol, hanesyddol hwn yng ngyfaddiladau'r pwll yn Nhrawsfynydd.
- Gwastraff a gynhyrchir wrth ddatgomisiynu cyfleusterau segur, er enghraifft gwaith pibelli, tanciau, pypiau a rwbél wedi'i ddymchwel.

## Dymchwel

Mae gwastraff datgomisiynu fel peiriannau a chyfarpar yn cael eu symud a'u gwaredu'n ddiogel oddi ar y safle. Gwastraff y bernir sy'n addas i'w gadw ar y safle yw deunyddiau concriid a briciau'n bennaf a gaiff eu cynhyrchu yn ystod gwaith dymchwel, yn amodol ar gael y caniatâd angenrheidiol. Bydd y gwastraff hwn yn cynnwys cydrannau ymbelydrol a heb fod yn ymbelydrol. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i baratoi ar gyfer dymchwel cyfaddiladau'r pwll.

Mae cyfleusterau segur yn cael eu dymchwel, a bydd rhai deunyddiau priodol a ddymchwelwyd yn cael eu cadw ar y safle. Mae'r neuadd dyrbin, y gweithdai a'r adeiladau gweinyddol gwreiddiol i gyd wedi'u dymchwel eisoes. Hyd yma mae hyn wedi golygu bod miloedd lawer o dunelli o groncriid a briciau o'r adeiladau'n cael eu hailddefnyddio ar y safle yn hytrach na chael eu cludo oddi yno mewn lorïau.

## Cyflwr terfynol

Ni chyrrhaeddir cyflwr terfynol y safle hyd nes y byddwn wedi cwblhau'r holl weithgarwch a gynlluniwyd ar y safle ac y gellir rhyddhau'r tir ar gyfer y defnydd nesaf a fwriadwyd ar ei gyfer. Yn achos Trawsfynydd rhagwelir y cyrrhaeddir y cyflwr hwn tua chanol y ganrif.



# Cyfadeiladau'r pwll

Mae cyfadeiladau'r pwll yn gasgliad o 38 o adeiladau a adeiladwyd dros 50 mlynedd yn ôl i brosesu ac anfon tanwydd a ddisbyddwyd o'r adweithyddion ac i ymgymryd â gweithrediadau storio a phrosesu gwastraff. Y prif adeiladwaith yw'r pyllau eu hunain (pedair lôn pyllau, sydd tua 100m o hyd, 10.5m o led a 4.3m o ddyfnder) ynghyd â chromgelloedd gweddillion gwastraff, gwaith trin dŵr, cyfleusterau golchi dillad a chyfleusterau prosesu gwastraff lefel ganolraddol.

Ar ôl gorffen gwagio'r tanwydd, cafodd y dŵr ei wagio o lonydd y llau, gan adael strwythur concriid sych gyda haen arwyneb wedi'i halogi. Defnyddiwyd cerbydau sy'n cael eu gweithredu o bell i symud yr haen ar yr wyneb o goncriid o du mewn i'r adeilad i waredu'r halogiad swmpus, gyda mwy na 120 tunnell o rwbel concriid halogedig wedi'i symud o'r safle.

Fodd bynnag, ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, bydd rhywfaint o ymbelydredd gweddilliol yn yr adeiladwaith. Ar ôl degawdau o weithgarwch gweithredol mi wyddom fod y tir o amgylch y safle hefyd yn cynnwys lefelau isel o ymbelydredd, sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd ac rydym yn adrodd arno fel rhan o'n gwaith o reoli'r safle.

Y cynllun gwreiddiol ar gyfer datgomisiynu cyfadeiladau'r pyllau oedd gwaredu'r holl ymbelydredd a oedd yn uwch na lefelau rheoliadol o'r adeiladwaith i'w waredu oddi ar y safle, ac yna dymchwel i lefel y tir ac ôl-lenwi unrhyw wagle â deunydd newydd, a fyddai'n cael ei gludo i'r safle o rywle arall.

Ein cynllun arfaethedig newydd ar gyfer y safle yw parhau i adael yr adeiladwaith o dan y ddaear yn ei le ond ôl-lenwi'r gwagle â rwbel addas o'r adeiladwaith uwchben lefel y ddaear, cyn gosod cap concriid i allu aildefnyddio'r tir i helpu i ddatgomisiynu'r safle ymhellach.

# Cynllun newydd ar gyfer datgomisiynu cymhlethfa'r pyllau

